Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales

# Crynodeb Gwirio Ansawdd
# Deintyddfa Charles Street
# Dyddiad y gweithgarwch:14 Chwefror 2022

Dyddiad cyhoeddi: 21 Mawrth 2022





Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:


Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ


Neu drwy


Ffôn: 0300 062 8163

E-bost: agic@llyw.cymru

Gwefan: www.agic.org.uk


ISBN digidol 978-1-80391-876-1

© Hawlfraint y Goron 2022

# Crynodeb Gwirio Ansawdd

## Ein dull gweithredu

Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) wiriad ansawdd o bell o Ddeintyddfa Charles Street, Caerdydd fel rhan o'i rhaglen o waith sicrwydd. Mae'r practis yn darparu amrywiaeth o wasanaethau deintyddol preifat a GIG. Mae tîm y practis yn cynnwys pedwar deintydd, un deintydd ymweliadol, sydd yn arbenigo mewn mewnblaniadau, dwy nyrs ddeintyddol a derbynnydd.

Mae gwiriadau ansawdd AGIC yn ffurfio rhan o ddull newydd wedi'i deilwra ar gyfer sicrwydd ac maent yn un o nifer o ffyrdd y mae'n archwilio sut mae gwasanaethau gofal iechyd yn bodloni Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 a'i safonau a chanllawiau cysylltiedig. Rhoddir adborth i gynrychiolwyr y gwasanaeth ar ddiwedd y gwiriad ansawdd, mewn ffordd sy'n cynorthwyo dysgu, datblygu a gwelliant ar lefelau gweithredol a strategol.

Ciplun yw gwiriadau ansawdd o'r safonau gofal o fewn gwasanaethau gofal iechyd. Cânt eu cynnal oddi ar y safle'n gyfan gwbl ac maent yn canolbwyntio ar dri maes allweddol: atal a rheoli heintiau, llywodraethu (yn arbennig ynghylch staffio), a'r amgylchedd gofal. Mae'r gwaith yn archwilio trefniadau sydd ar waith i ddiogelu staff a chleifion rhag COVID-19, gan ein galluogi i ddarparu cyngor gwella cyflym a chefnogol ar weithrediad diogel gwasanaethau yn ystod y pandemig. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am ein trefniadau sicrwydd a'n dull arolygu yma.

Gwnaethom siarad â'r rheolwr cofrestredig a'r nyrs ddeintyddol arweiniol ar 14 Chwefror a ddarparodd gwybodaeth a thystiolaeth i ni ynglŷn â'u gwasanaeth. Gwnaethom ddefnyddio'r llwybrau ymholi allweddol canlynol:

- Pa newidiadau ydych chi wedi'u gweithredu yng ngoleuni COVID-19 i sicrhau y cynhelir safonau atal a rheoli heintiau?
- Sut ydych yn sicrhau y gall yr holl gleifion (gan gynnwys grwpiau sy'n agored i niwed / mewn perygl) gyrchu gwasanaethau mewn modd priodol a diogel?
- Sut ydych yn diwallu anghenion cleifion Cymraeg wrth iddynt gyrchu gwasanaethau gofal iechyd drwy gyfrwng y Gymraeg?
- Sut mae'r practis a'r gwasanaethau y mae'n eu darparu wedi addasu yn ystod y cyfnod hwn o COVID-19?
- Sut ydych yn sicrhau bod cydraddoldeb a dull sy'n seiliedig ar hawliau yn cael eu hymgorffori ar draws y gwasanaeth?

## Yr amgylchedd

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried sut mae'r gwasanaeth wedi ymateb i'r heriau a gyflwynwyd gan COVID-19 a sut mae'r gwasanaeth wedi dylunio a rheoli'r amgylchedd gofal i'w gadw mor ddiogel â phosib i gleifion, staff ac ymwelwyr.

Roedd y dogfennau allweddol a adolygwyd gennym yn cynnwys y canlynol:

- Asesiad risg amgylcheddol
- Asesiad risg COVID-19
- Polisi COVID-19.

Gwnaethom hefyd holi cynrychiolwyr y gwasanaeth am y newidiadau y maent wedi'u gwneud i sicrhau bod cleifion yn parhau i dderbyn gofal a thriniaeth yn unol â'u hanghenion.

**Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:**

Canfuom fod y gwasanaeth wedi cwblhau asesiad risg amgylcheddol mewn ymateb i bandemig COVID-19. Roedd hwn wedi ei gwblhau gyda chamau gweithredu, y gwabethom gadarnhau eu bod wedi’u cyflawni. Roedd hwn wedi’i ategu gan bolisïau'r practis a oedd wedi cael eu hysgrifennu yn unol â'r canllawiau diweddaraf a gyhoeddwyd gan y Prif Swyddog Deintyddol (Cymru). Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn ymwybodol o'r canllawiau hyn a sut roeddent yn effeithio ar y practis ac ar ddarparu gofal a thriniaeth.

Canfuom fod y cleifion yn cael eu brysbennu dros y ffon er mwyn asesu a blaenoriaethu eu hanghenion, ac i gadarnhau y gellid darparu’r driniaeth yn ddiogel yn ystod y pandemig. Gwnaethom gadarnhau bod proses brysbennu addas ar waith i reoli apwyntiadau brys a bod set addas o gwestiynau sgrinio symptomau COVID-19 er mwyn amddiffyn y staff a chleifion eraill. Roedd hyn yn cynnwys gwneud trefniadau i gleifion sy'n agored i niwed ddod i’r ddeintyddfa ar ddechrau'r dydd ac i gleifion yr oedd angen gweithdrefnau risg uwch arnynt ddod ar ddiwedd y dydd.

Cawsom wybod y rhoddir ystod o wybodaeth i gleifion pan maent yn gwneud apwyntiad a chyn eu bod yn dod i'r practis. Roedd hyn yn cynnwys y gofyniad i ddod ar eu pen eu hunain os nad oeddynt yn dod gyda gofalwr, peidio â dod i'r practis os oeddynt yn teimlo'n sâl neu arddangos symptomau, a'r gofyniad i wisgo gorchudd wyneb.

Dywedwyd wrthym fod y practis wedi gweithredu nifer o fesurau i helpu i gynnal ardal aros ddiogel ar gyfer y staff a'r cleifion. Roedd hyn yn cynnwys tynnu cadeiriau allan er mwyn cynnal mesurau cadw pellter cymdeithasol, gosod sgrin yn y dderbynfa, cael gwared ar gopïau caled o wybodaeth i gleifion, a chynghori cleifion i osgoi cyrraedd yn ddiangen o gynnar ar gyfer eu hapwyntiad. Cefnogwyd y mesurau hyn gan asesiad risg amgylcheddol, a oedd wedi

cael ei adolygu a'i ddiweddaru mewn ymateb i'r pandemig.

Disgrifiodd y practis y trefniadau ar gyfer sicrhau bod cyfarpar brys a meddyginiaeth yn cael eu cadw mewn stoc ac yn gyfredol. Roedd hyn yn cynnwys cynnal a chofnodi gwiriadau wythnosol o'r pecyn cyffuriau argyfwng. Cadarnhaodd y staff hefyd fod gwiriadau wythnosol yn cael eu cwblhau a'u cofnodi ar gyfer y diffibriliwr a'r silindr ocsigen a bod contract cynnal a chadw ar waith ar gyfer y rhain.

Gwnaethom ystyried sut mae'r practis yn bodloni anghenion ieithyddol ei gleifion. Dywedodd y practis wrthym fod aelod o'r tîm clinigol yn siarad Cymraeg yn rhugl. Yn achos cleifion ag anghenion ieithyddol arall, cawsom wybod bod y cleifion yn gallu cyfathrebu naill a'i drwy ffrind y maent yn ymddiried ynddo neu drwy ddefnyddio cyfleuster llinell iaith y GIG. Dywedwyd wrthym y câi pob ymdrech ei wneud i ddarparu gwybodaeth sydd ar ffurf copi caled mewn fformatau eraill os geisiwyd.

**Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella.**

## Atal a rheoli heintiau

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried sut mae'r gwasanaeth wedi ymateb i'r heriau a gyflwynwyd gan COVID-19, a pha mor dda y mae'n rheoli'r risg o heintiau, er mwyn helpu i gadw cleifion, ymwelwyr a staff yn ddiogel.

Roedd y dogfennau allweddol a adolygwyd gennym yn cynnwys y canlynol:

- archwiliad dihalogi Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05
- Y polisi glanhau ac amserlenni glanhau.
- Gweithdrefnau triniaeth o dan COVID-19
- Cofnodion sterileiddio
- Cofnodion hyfforddiant gorfodol.

**Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:**

Dywedwyd wrthym bod systemau ar waith ar gyfer sicrhau bod staff yn gyfarwydd â chynnal arferion da o ran atal a rheoli heintiau. Cadarnhaodd y staff bod cyfarfodydd tîm yn cael eu cynnal a bod cael grŵp 'Whatsapp' i staff wedi bod o gymorth o ran cadw'r tîm yn gyfredol â'r diweddariadau allweddol drwy gydol y pandemig.

Roedd gan y practis arweinydd dihalogi enwebedig a bod un o'r nyrsys deintyddol yn cyflawni'r rôl honno. Cadarnhaodd y practis bod gan yr arweinydd amser gwarchodedig penodedig i'w alluogi i gyflawni'r dyletswyddau hyn.

Canfuom fod y practis wedi gweithredu polisïau a gweithdrefnau penodol i COVID-19, a oedd

wedi cael eu hadolygu yn unol â'r wybodaeth d diweddaraf gan y Prif Swyddog Deintyddol. Cefnogwyd y polisïau hyn gan asesiad risg COVID-19, asesiad risg amgylcheddol cyffredinol, ac asesiad risg ar gyfer rheoli sylweddau peryglus i iechyd (COSHH), a oedd i'w gweld yn gynhwysfawr ac wedi'u hadolygu yn ddiweddar.

Dywedodd staff wrthym y gofynnir i bob aelod o staff a phob claf wisgo cyfarpar diogelu personol a bod gorsafoedd golchi dwylo wedi'u darparu wrth y fynedfa ac ym mhob rhan o'r practis. Roedd gan y practis bolisi drws caeedig, a oedd yn golygu y gofynnir i gleifion aros cyn dod i mewn i'r practis er mwyn annog pobl i gadw pellter cymdeithasol ym mhob rhan o'r practis.

Canfuom fod gan bob ystafell driniaeth restr wirio glanhau ddyddiol a rhestr wirio glanhau wythnosol, a bod y ddwy wedi cael eu cwblhau yn gyson. Disgrifiodd y staff y mesuriadau ychwanegol a roddwyd ar waith mewn ymateb i'r pandemig a bod gweithdrefnau ysgrifenedig yn eu lle i gefnogi hyn.

Gwnaethom adolygu sampl o gofnodion yn dangos bod offer deintyddol yn cael eu sterileiddio yn briodol. Roedd hyn yn cynnwys gwiriadau dyddiol a misol a gynhelir o'r glanhawr uwchsonig, a phrawf wythnosol a wneir ar weddillion protein. Gwelsom dystiolaeth hefyd i gadarnhau bod yr awtoclaf[1] yn cael ei wirio ar ddechrau pob diwrnod, gyda chylchoedd yn cael eu logio a'u cofnodi'n briodol. Roedd pob un o'r gwiriadau hyn wedi cael eu cwblhau yn gyson ac wedi pasio.

Dywedodd y practis wrthym bod unedau awyru mecanyddol wedi cael eu gosod yn holl ardaloedd clinigol y practis mewn ymateb i'r pandemig, gan gynnwys yr ystafell dihalogi. Darparwyd y cyfrifiadau newid aer i ni ar gyfer pob un o'r ystafelloedd triniaeth a chawsom wybod bod gweithiwr proffesiynol cymwys wedi'u cyfrifo ar adeg eu gosod er mwyn rhoi sicrwydd i'r practis o'u heffeithiolrwydd.

Gwnaethom gadarnhau bod y staff wedi cael hyfforddiant ar atal a rheoli heintiau, gan gynnwys sut i wisgo a diosg cyfarpar diogelu personol yn gywir. Dywedodd y practis wrthym bod y bwrdd iechyd lleol wedi darparu gwasanaeth prawf ffitio ar gyfer anadlyddion FFP3 i'r holl staff clinigol.

**Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella.**

## Llywodraethu / Staffio

Fel rhan o'r safon hon, gwnaeth AGIC holi cynrychiolwyr y gwasanaeth ynghylch sut, yng ngoleuni effaith COVID-19, maent wedi addasu eu gwasanaeth. Gwnaethom archwilio a yw trefniadau rheoli yn sicrhau bod staff yn addas yn eu rolau a'u bod wedi'u hyfforddi'n briodol

[1]Mae awtoclaf yn beiriant sy'n cael ei ddefnyddio i ddihalogi offer deintyddol.

er mwyn darparu gofal diogel ac effeithiol.

Roedd y dogfennau allweddol a adolygwyd gennym yn cynnwys y canlynol:

- Cynlluniau parhad busnes
- Cofnodion hyfforddiant gorfodol
- Samplau o'r archwiliadau mwyaf diweddar.

**Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:**

Dywedwyd wrthym bod pob aelod o staff wedi cwblhau asesiad risg gweithle COVID-19 tuag at ddechrau'r pandemig, a gwnaethom nodi bod profion llif unffordd yn parhau i gael eu gwneud er mwyn helpu i leihau'r risg o drosglwyddo feirws rhwng staff a chleifion.

Dywedodd staff wrthym y bu i rai aelodau o staff adael y practis, amharwyd ar apwyntiadau, a chyfyngwyd ar nifer y cleifion y gellid eu gweld o ganlyniad i effaith y pandemig. Cawsom wybod bod adnoddau iechyd meddwl ar gael i'r staff drwy sefydliad trydydd parti pe bai staff yn dymuno siarad â rhywun o’r tu allan i'r practis. Er hyn, roedd tîm y practis yn hyderus bod effeithiau’r pandemig y tu ôl iddynt mwyach, ac roedd cynlluniau ar waith i recriwtio ar gyfer swyddi gwag.

Dywedodd tîm y practis wrthym y cafodd staff asiantaeth eu defnyddio ar adegau drwy gydol y pandemig. Gwnaethom gadarnhau bod cyfnod sefydlu ac ymgyfarwyddo yn cael ei ddarparu i aelodau o staff yr oedd amgylchedd y practis yn newydd iddynt.

Gwelsom dystiolaeth o gofnodion hyfforddiant a chanfuom fod staff wedi parhau i gwblhau ystod o gyrsiau hyfforddiant datblygiad proffesiynol parhaus perthnasol mewn ymateb i'r pandemig a thuag at gyflawni nodau hyfforddiant eraill. Canfuom, er bod y pandemig wedi effeithio ar y mynediad i hyfforddiant wyneb yn wyneb, roedd mynediad at ddatblygiad proffesiynol parhaus ar-lein wedi parhau lle roedd hyn yn bosibl. Roedd y meysydd hyfforddiant gorfodol allweddol, gan gynnwys dadebru cardio-pwlmonaidd (CPR) a radiograffeg, yn gyfredol ar gyfer aelodau priodol o’r tîm clinigol.

Dangosodd y practis ddealltwriaeth dda o wella ansawdd drwy archwiliadau, a darparodd enghreifftiau o lle roedd newidiadau wedi cael eu gweithredu o ganlyniad, gan gynnwys atgyfnerthu ei ddarpariaeth o wybodaeth arferion amser gwely i blant a gwella gosodiad ei becynnau o gyffuriau ac offer argyfwng. Canfuom hefyd fod nifer o aelodau o'r tîm wedi cwblhau'r modiwl Gwella Ansawdd Gyda'n Gilydd gan Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) ar lefel efydd.

Canfuom fod archwiliad radiograffeg wedi cael ei gwblhau yn ddiweddar a’i fod wedi cael sgôr gadarnhaol. Dangosodd archwiliad diweddar o gardiau cofnod fod y practis yn cynnal safon dda o gadw cofnodion, a bod ychydig o feysydd iddo wella ynddynt. Fodd bynnag, gwnaethom nodi fod cynlluniau ar waith yn barod i gynnail ailarchwiliad o'r practis ymhen 12 mis er mwyn monitro gwelliannau.

Roedd y rheolwr cofrestredig yn ymwybodol o'i gyfrifoldeb dros adrodd digwyddiadau i AGIC, fel achosion o COVID-19 a digwyddiadau eraill sy'n peri risg i ddiogelwch cleifion. Gwnaethom nodi hefyd fod cynllun parhad busnes cynhwysfawr yn ei le, a oedd newydd gael ei adolygu, i gynorthwyo'r practis i gynllunio mewn argyfyngau annisgwyl.

**Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:**

Canfuom mai yn 2019 y gwnaeth aelodau enwebedig o staff y practis gwblhau hyfforddiant cymorth cyntaf a hyfforddiant diogelwch tân ddiwethaf. Mae AGIC yn argymell bod cyrsiau gloywi yny meysydd hyn yn cael eu cwblhau yn flynyddol er mwyn sicrhau bod cymwyseddau yn parhau'n gyfredol ac yn unol ag arferion cyfredol.

# Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi meysydd i'w gwella yn ystod ein gwiriad ansawdd a lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth ddweud wrthym am y camau a gymerwyd i fynd i'r afael â'r rhain, darperir cynllun gwella yn rhoi manylion ar ddiwedd y crynodeb gwirio ansawdd hwn.

Lle mae angen cynllun gwella, dylai wneud y canlynol:

- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd y bydd y meysydd i'w gwella a nodwyd yn cael sylw digonol
- Sicrhau bod tystiolaeth ofynnol yn erbyn camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r gwiriad ansawdd

O ganlyniad i ganfyddiadau'r gwiriad ansawdd hwn, dylai'r gwasanaeth:

- Sicrhau nad yw'r meysydd i'w gwella yn systemig ar draws meysydd eraill yn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal heb eu cymryd a/neu ar y gweill, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

Os na nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella yn ystod y gwiriad ansawdd hwn, ni fydd angen cynllun gwella, a dim ond yr adroddiad cryno ar y gwiriad ansawdd fydd yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

# Cynllun gwella

Lleoliad: Practis Deintyddol Charles Street

Dyddiad y gweithgarwch: 14 Chwefror 2022

Mae'r tabl isod yn cynnwys gwelliannau a nodwyd yn ystod y gwiriad ansawdd Haen 1, lle mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwelliant yn dweud wrthym am unrhyw gamau mae'n eu cymryd tuag at fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Sylwer, disgwylir i'r holl gamau gweithredu gael eu cwblhau o fewn tri mis i'r gwiriad ansawdd a dylid cyflwyno fersiwn derfynol o'r cynllun gwella drwy Objective Connect ar ôl iddo gael ei gwblhau.

| Cyfeirnod | Yr hyn y mae angen ei wella | Safon / Rheoliad | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Rhaid i'r practis sicrhau bod hyfforddiant gloywi yn y meysydd canlynol yn cael ei ddarparu i aelodau enwebedig o staff y practis yn flynyddol:<br>- Cymorth cyntaf<br>- Diogelwch tân / swyddog tân | Rheoliad 17 o Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru). | Rydym wedi cysylltu â'n darparwyr arferol ar gyfer hyfforddiant i drefnu hyfforddiant gloywi. Rydym yn disgwyl e-bost yn nodi dyddiadau addas ar gyfer hyn. Mae nodyn atgoffa yn y dyddiadur ar gyfer y blynyddoedd i ddod. | B Donati | Bydd hyfforddiant gloywi yn cael ei gwblhau o fewn y 3 mis nesaf, ac yn cael ei ailadrodd bob blwyddyn. |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Enw: Rupert Nute

Dyddiad: 25/2/2022